**SWYDD-DDISGRIFIAD**

Teitl y Swydd **AELOD O’R TÎM CHWARAE CYMUNEDOL**

Cyfarwyddiaeth **Addysg ac Ieuenctid**

Yn atebol i’r **Goruchwyliwr Cynllun Chwarae**

## 1.0 Pwrpas y Swydd

Gweithio fel aelod o’r Tîm Chwarae Cymunedol, i hwyluso a chyfoethogi profiadau chwarae i blant a phobl ifanc rhwng 5 a 15 oed mewn mannau chwarae cymunedol.

## 2.0 Prif Gyfrifoldebau

2.1 Darparu cyfleoedd chwarae o ansawdd da i blant a phobl ifanc mewn mannau sy’n agored i bawb.

2.2 Gweithio fel rhan o dîm gan rannu llwyth gwaith a chyfrifoldebau.

2.3 Gweithio’n unol â chanllawiau iechyd a diogelwch fel y nodwyd yn ystod hyfforddiant.

2.4 Rhoi gwybod am bob damwain neu ddigwyddiad ar y safle.

2.5 Gweithio’n unol â gweithdrefnau amddiffyn plant Cyngor Sir y Fflint.

2.6 Trafod gyda’r Goruchwylydd Cynlluniau Chwarae’n rheolaidd, gan rannu gwybodaeth am unrhyw agwedd ar y ddarpariaeth.

2.7 Meithrin cyswllt gydag aelodau o’r gymuned a bod yn eiriolwr ar gyfer hawl plant i chwarae.

2.8 Cyflawni amrywiaeth o dasgau gwerthuso ac ymchwil yn ôl cyfarwyddyd.

2.9 Cynnal ymarfer myfyriol yn rheolaidd a chymryd rhan mewn cyfarfodydd i drafod unrhyw faterion sy’n codi.

2.10 Darparu cymorth ychwanegol pan fo angen ar gyfer plant a'u teuluoedd – yn enwedig o ran Cynllun Ffrindiau Sir y Fflint a'r angen i gefnogi plant sydd ag anableddau.

2.11 Bydd gofyn i bob aelod o'r tîm ymgymryd â gosod a chadw cyfarpar yn ôl y gofyn ac sy’n berthnasol i'w sesiwn chwarae.

2.12 Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill yn ôl y gofyn er mwyn cyflawni nodau pob prosiect chwarae yn Sir y Fflint.

2.13 Efallai y bydd gofyn i aelodau’r Tîm Chwarae Cymunedol ddarparu gofal personol fel rhan o’r swydd, fel mynd â phlant a phobl ifanc i’r toiled ar y safle pan mae angen.

2.14 Efallai y bydd gofyn i aelodau’r Tîm Chwarae Cymunedol gynorthwyo wrth weithredu’r cynllun ‘Rhannu Cinio’ mewn rhai safleoedd penodol.

## 3.0 Cyd-destun y Swydd

Gweithio mewn amryw o fannau chwarae ledled Sir y Fflint. Mae swydd yr Aelod o'r Tîm Chwarae Cymunedol wedi'i chreu er mwyn gallu darparu gwasanaethau chwarae sy'n agored i bawb mewn cymunedau lleol, i fodloni'r angen lleol sydd wedi dod i'r amlwg.

## 4.0 Cysylltiadau

| | |
|---|---|
| Mewnol | Swyddogion mewnol – Cyngor Sir y Fflint – helpu wrth ddelio â materion gwaith chwarae.<br>Staff mewn cyfarwyddiaethau eraill – helpu â materion eraill/ymweliadau safle/prosiectau mewn partneriaeth. |
| Allanol | Plant a phobl ifanc, y gymuned ehangach – gwaith chwarae/ymholiadau/ cwynion.<br>Cynghorau Tref a Chymuned – prosiectau mewn partneriaeth/ymweliadau safle.<br>Cymdeithasau Tenantiaid a Phreswylwyr – prosiectau mewn partneriaeth / ymweliadau safle.<br>Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru – ymweliadau safle. |

## 5.0 Trefniadaeth

Cyfarwyddwr Addysg ac Ieuenctid

Uwch-reolwr Darpariaeth Ieuenctid Integredig

Swyddog Datblygu Chwarae

Goruchwyliwr y Cynllun Chwarae (Gorffennaf – Awst)

Aelodau'r Tîm Chwarae Cymunedol/Cyfeillion (Gorffennaf – Awst)

## 6.0 Sgiliau a Phrofiad

## MANYLION AM YR UNIGOLYN

Teitl y Swydd **CHWARAE CYMUNEDOL - AELOD TÎM**

Cyfarwyddiaeth

## Newid Sefydliadol

## Hanfodol

| | |
|---|---|
| **Addysg** | |
| **Profiad** | Medru cyfathrebu'n effeithiol gyda phlant, pobl ifanc a'r gymuned ehangach.<br>Medru cyfrannu at raglen o weithgareddau sy'n ysgogol yn gorfforol ac yn feddyliol. |
| **Sgiliau** | Sgiliau trefnu rhagorol. |
| **Arall** | Personoliaeth gyfeillgar a rhadlon.<br>Brwdfrydedd, egni a chymhelliant.<br>Ymagwedd hyblyg at waith.<br>Medru gweithio o’ch pen a’ch pastwn eich hun heb oruchwyliaeth.<br>Gweithio fel rhan o dîm sy’n rhannu llwyth gwaith a chyfrifoldebau. Gweithio’n unol â chanllawiau Iechyd a Diogelwch fel y nodir yn ystod hyfforddiant. |

## Dymunol

| | |
|---|---|
| **Addysg** | Cymhwyster gwaith chwarae lefel 2 neu’n gweithio tuag at un. |
| **Profiad** | Profiad o waith chwarae. |
| **Sgiliau** | |
| **Arall** | |